# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector

**Awdur:** Lois Owens (TA)

**Teitl Swydd:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd; Uwch Swyddog Gweithredol

**Dyddiad**: 8/5/2026

**Fersiwn:** Fersiwn Drafft

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

### 1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

### 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Nod y Compact yw darparu fframwaith clir a chyfredol ar gyfer y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector, gan sefydlu egwyddorion cyffredin ar gyfer cydweithio, cyfathrebu, cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu. Ei amcan yw cryfhau'r berthynas rhwng y ddau bartner,

hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws gwasanaethau'r Cyngor, a sicrhau bod llais a chyfraniad y Trydydd Sector yn cael eu hystyried yn gynnar wrth ddatblygu gwasanaethau a chynlluniau.

Y canlyniad arfaethedig yw perthynas fwy agored, effeithiol a strategol rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, gan greu'r amodau ar gyfer gwell cydweithio er budd trigolion a chymunedau Gwynedd. Bydd y Compact hefyd yn darparu sail ar gyfer ymgysylltu parhaus rhwng y Cyngor, Mantell Gwynedd a sefydliadau'r Trydydd Sector wrth ddatblygu blaenoriaethau a chyfleoedd gwaith ar y cyd yn y dyfodol.

Er nad yw'r Compact yn cyflwyno newid sylweddol i natur y cydweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector, mae'n diweddaru ac yn cryfhau'r fframwaith presennol drwy nodi'n gliriach yr egwyddorion, y disgwyliadau a'r ymrwymiadau sy'n sail i'r berthynas honno.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Y prif fudd-ddeiliaid yw Mantell Gwynedd fel y corff ambarél ar gyfer y Trydydd Sector yng Ngwynedd, ynghyd â'r ystod eang o sefydliadau gwirfoddol, elusennol, cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu ar draws y sir. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl a chymunedau sydd fwyaf agored i niwed neu dan anfantais, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl ar incwm isel, plant a theuluoedd, a grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r Compact wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd ac mewn ymgynghoriad â sefydliadau'r Trydydd Sector.

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | Hydref 2025 | Datblygwyd y Compact gyda Mantell Gwynedd a'r Trydydd Sector. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ac holiadur 6 wythnos yn Hydref/Tachwedd 2025, ynghyd â thrafodaeth gyda Rhwydwaith Trydydd Sector Gwynedd i gasglu adborth ar y drafft. |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|
| **Hil** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail hil. Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio gyda chymunedau amrywiol ac unigolion sy'n wynebu rhwystrau neu anghydraddoldebau. Mae cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn debygol o gefnogi mynediad mwy cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd i bobl o bob cefndir ethnig. Ni chodwyd unrhyw bryderon penodol ynghylch effaith negyddol ar sail hil yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anabledd** | N/A | Mae nifer sylweddol o sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl anabl, gan gynnwys pobl ag anableddau corfforol, anableddau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau hirdymor. Er nad yw'r Compact yn newid trefniadau darparu gwasanaethau yn uniongyrchol, disgwylir y bydd cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cefnogi cydweithio gwell a mynediad at gymorth i bobl anabl. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu. |
| **Rhyw** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail rhyw. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau a chymorth sydd wedi'u targedu at fenywod, dynion a phobl sydd â nodweddion neu anghenion penodol. Disgwylir y bydd cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cefnogi mynediad at wasanaethau a chyfleoedd i bobl o bob rhyw. Ni chodwyd unrhyw bryderon penodol ynghylch effeithiau negyddol ar sail rhyw yn ystod y broses ymgysylltu. |
| **Oedran** | N/A | Mae nifer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau a chymorth i bobl ar draws pob grŵp oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl o oedran gweithio a phobl hŷn. Disgwylir y bydd y Compact yn cefnogi cydweithio gwell rhwng y Cyngor a'r sector, gan helpu i gynnal a datblygu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pobl o bob oedran. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol ar sail oedran yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |

| | | |
|---|---|---|
| **Crefydd a Chred** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail crefydd na chred. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio'n benodol gyda chymunedau ffydd neu unigolion o gefndiroedd crefyddol amrywiol, tra bod eraill yn darparu gwasanaethau cynhwysol i'r gymuned gyfan. Disgwylir y bydd y Compact yn cefnogi cydweithio gwell a mynediad teg at wasanaethau i bobl o bob crefydd, cred neu'r rhai nad oes ganddynt gred grefyddol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae'r Trydydd Sector yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi unigolion a chymunedau LHDT+ ac eraill a all wynebu anghydraddoldebau neu rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau. Disgwylir y bydd cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cefnogi mynediad teg a chynhwysol at wasanaethau i bobl o bob cyfeiriadedd rhywiol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori.** |
| **Ail-bennu rhywedd** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar bobl sy'n ailbennu rhywedd. Fodd bynnag, mae'r Trydydd Sector yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth i unigolion trawsryweddol a phobl sy'n archwilio eu hunaniaeth rhywedd. Disgwylir y bydd cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cefnogi mynediad teg a chynhwysol |

| | | |
|---|---|---|
| | | at wasanaethau i bawb, waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Priodas a Phartneriaetgh Sifil** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Mae'r egwyddorion a nodir yn y Compact yn berthnasol i bawb yn gyfartal ac wedi'u bwriadu i gefnogi cydweithio gwell rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector er budd trigolion a chymunedau Gwynedd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar sail beichiogrwydd a mamolaeth. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu cefnogaeth a gwasanaethau i rieni, teuluoedd, mamau newydd a phobl yn ystod beichiogrwydd. Disgwylir y bydd cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector yn cefnogi mynediad at gymorth a gwasanaethau priodol i'r grwpiau hyn. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Iaith Gymraeg** | N/A | Mae'r Trydydd Sector yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau, gweithgareddau a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Gwynedd. Mae nifer o sefydliadau'r sector yn cynnig gwasanaethau Cymraeg eu hiaith sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw. Disgwylir y bydd y Compact yn cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Trydydd Sector ac yn cefnogi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | N/A | Mae'r Trydydd Sector yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n wynebu tlodi, allgáu cymdeithasol ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Oherwydd eu presenoldeb cryf mewn cymunedau lleol, mae sefydliadau'r sector yn aml ymhlith y cyntaf i weld effaith heriau megis costau byw cynyddol, unigrwydd, diweithdra a diffyg mynediad at wasanaethau. Disgwylir y bydd y Compact yn cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, gan gefnogi cydweithio er mwyn ymateb yn well i anghenion pobl a chymunedau sydd fwyaf difreintiedig a bregus yng Ngwynedd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | N/A | Nid yw'r Compact yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar y grŵp hwn. Disgwylir y bydd y Compact yn cryfhau cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, gan gefnogi mynediad at gymorth a gwasanaethau priodol i'r grŵp hwn. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol penodol yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Hawliau Dynol** | N/A | Mae'r Compact yn cefnogi egwyddorion hawliau dynol drwy hyrwyddo cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector er mwyn cefnogi llesiant, urddas, cynhwysiant a chyfranogiad unigolion a chymunedau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n wynebu anfantais, gwahaniaethu neu allgáu cymdeithasol, gan helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod ganddynt fynediad at gymorth a gwasanaethau priodol. Nid yw'r Compact yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol ar hawliau dynol ac mae'n debygol o gefnogi a chryfhau'r egwyddorion hyn drwy annog gweithio mewn partneriaeth er budd trigolion Gwynedd. |
| **Arall** | N/A | N/A |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Nid oes bylchau data nac wybodaeth sylweddol wedi'u nodi ar hyn o bryd. Gan fod y Compact yn gosod egwyddorion ar gyfer cydweithio yn hytrach na newid gwasanaethau'n uniongyrchol, ni ddisgwylir iddo gael effeithiau gwahanol ar grwpiau penodol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Mantell Gwynedd a sefydliadau'r Trydydd Sector er mwyn deall unrhyw faterion neu effeithiau sy'n dod i'r amlwg wrth weithredu'r Compact a datblygu trefniadau cydweithio yn y dyfodol.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Nid yw'r Compact ei hun yn cyflwyno newidiadau uniongyrchol i wasanaethau nac i drefniadau darpariaeth, ac felly ni nodwyd unrhyw effeithiau gronnus negyddol penodol ar y grwpiau a restrir uchod. Yn hytrach, disgwylir y bydd yn cefnogi a chryfhau trefniadau cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector. Gan fod llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio gyda phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau neu rwystrau i gael mynediad at wasanaethau, mae potensial i'r Compact gyfrannu'n gadarnhaol at amcanion a phenderfyniadau ehangach sy'n ceisio gwella canlyniadau i'r grwpiau hyn.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r Compact wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd a sefydliadau'r Trydydd Sector, gan gynnwys cyfnod ymgynghori cyhoeddus i gasglu safbwyntiau a phrofiadau amrywiol. Drwy osod egwyddorion clir ar gyfer cydweithio, cyfathrebu a chyd-gynhyrchu, mae'r Compact yn cefnogi perthynas fwy agored a chynhwysol rhwng y Cyngor a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl o bob cefndir a nodwedd warchodedig.

Mae llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion a chymunedau sydd mewn perygl o brofi anghydraddoldeb, gwahaniaethu neu allgáu cymdeithasol. O ganlyniad, disgwylir i'r Compact gefnogi hyrwyddo cyfle cyfartal, cryfhau mynediad at gymorth a gwasanaethau, a meithrin perthnasau cadarnhaol rhwng gwahanol grwpiau o fewn cymunedau Gwynedd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y nodau cydraddoldeb hyn yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Mae'r Compact yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol drwy gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, sydd yn aml yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl a chymunedau sy'n profi tlodi, allgáu cymdeithasol ac anfantais. Mae'r sector yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu cymorth, gwasanaethau ac eiriolaeth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ac mae ganddo ddealltwriaeth fanwl o'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau hynny.

Drwy hyrwyddo mwy o gydweithio, cyfathrebu a chyd-gynllunio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, mae'r Compact yn ceisio sicrhau bod anghenion pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried yn well wrth ddatblygu gwasanaethau a blaenoriaethau. Er

nad yw'r Compact yn cyflwyno gwasanaethau newydd nac yn newid trefniadau darpariaeth yn uniongyrchol, mae'n darparu fframwaith i gefnogi gweithredu sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i'r cymunedau sydd fwyaf mewn angen.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae'r Compact yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r Trydydd Sector yn ei chwarae wrth hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae llawer o sefydliadau'r sector yn darparu gwasanaethau, gweithgareddau a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r egwyddorion a nodir yn y Compact yn cefnogi cydweithio agos rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector mewn ffordd sy'n gyson â Safonau'r Gymraeg ac â Strategaeth Iaith y Cyngor. Drwy gryfhau'r berthynas hon, bwriedir manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, cefnogi gwasanaethau Cymraeg eu hiaith, a chynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. Nid oes unrhyw elfen o'r cynnig sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn ystod y broses ymgysylltu ac ymgynghori.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

**Cynnwys:**

· Mae'r Compact wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd, mudiadau'r Trydydd Sector ac adrannau'r Cyngor, gyda chyfnod ymgysylltu cyhoeddus yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyfrannu at y cynnwys.

**Cydweithio:**
· Prif ddiben y Compact yw cryfhau trefniadau cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector.

**Atal:**
· Drwy gryfhau cyfathrebu, cydweithio a chyd-ddealltwriaeth rhwng partneriaid, bwriedir lleihau'r risg o anghysondeb a diffyg cydlynu yn y dyfodol.

**Hirdymor:**
· Mae'r Compact yn sefydlu egwyddorion hirdymor ar gyfer gweithio gyda'r Trydydd Sector mewn cyfnod o bwysau ariannol a galw cynyddol am wasanaethau.

**Integreiddio:**
· Mae'r Compact yn cefnogi gweithio trawsadrannol a phartneriaethol, gan gydnabod cyfraniad y Trydydd Sector at gyflawni amcanion llesiant ehangach ar draws gwasanaethau a sefydliadau cyhoeddus.

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Bydd

**Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?**

**Caffael:**

Nid yw'r Compact yn gytundeb cyfreithiol ffurfiol nac yn creu rhwymedigaethau contractiol newydd. Yn hytrach, mae'n gosod egwyddorion a disgwyliadau ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, gan gynnwys mewn meysydd megis comisiynu, caffael a chydweithio. Mae'r Gwasanaeth Caffael wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Compact er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn adlewyrchu arferion da ac yn gosod sail briodol ar gyfer trefniadau partneriaeth, comisiynu a chaffael yn y dyfodol.

Wrth weithredu'r Compact ac unrhyw drefniadau partneriaeth cysylltiedig, bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i sicrhau bod gofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol, Safonau'r Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau, comisiynu a chaffael.

**Partneriaeth:**

Wrth weithredu'r Compact ac unrhyw drefniadau partneriaeth cysylltiedig, bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i sicrhau bod gofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol, Safonau'r Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau, comisiynu a chaffael.

Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiadau effaith perthnasol lle bo angen, sicrhau bod partneriaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, hyrwyddo mynediad cyfartal at wasanaethau, cefnogi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ystyried effaith penderfyniadau ar bobl a chymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda Mantell Gwynedd a sefydliadau'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r materion hyn wrth ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau yn y dyfodol.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Wrth ystyried cymesuredd, ni ragwelir y bydd y Compact yn achosi unrhyw effaith negyddol sylweddol nac yn creu canlyniadau anghyfartal i unrhyw grŵp penodol. Gan nad yw'r Compact yn newid gwasanaethau nac yn cyflwyno meini prawf newydd ar gyfer mynediad at wasanaethau, ei brif ddiben yw sefydlu egwyddorion ar gyfer cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector.

Disgwylir i'r Compact gael effaith gadarnhaol gyffredinol drwy gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector, llawer ohonynt yn gweithio gyda phobl a chymunedau sy'n wynebu anfantais, anghydraddoldebau neu rwystrau i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Fodd bynnag, pe na bai egwyddorion y Compact yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor neu pe na bai trefniadau ymgysylltu priodol gyda'r Trydydd Sector yn cael eu cynnal, gallai hyn gyfyngu ar gyfleoedd i gydweithio'n effeithiol ac i fanteisio'n llawn ar wybodaeth ac arbenigedd sefydliadau cymunedol. Bwriedir lliniaru'r risg hwn drwy gynnal trefniadau ymgysylltu rheolaidd gyda Mantell Gwynedd a'r Trydydd Sector.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Dim

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol bwriadol nac anghyfreithlon sy'n deillio o'r Compact. Mae'r Compact yn gosod egwyddorion ar gyfer cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd ac wedi bod yn destun ymgysylltu cyhoeddus.

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Dim

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

**a) Helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon**

· Sicrhau bod trefniadau ymgysylltu'r Trydydd Sector yn cynnwys ystod eang o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

· Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, hawliau dynol a chynhwysiant wrth ddatblygu gwaith partneriaeth yn y dyfodol.

**b) Hyrwyddo cyfle cyfartal**

· Sicrhau bod sefydliadau o wahanol feintiau a chefndiroedd yn cael cyfleoedd cyfartal i gyfrannu at drafodaethau a blaenoriaethau'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector.

· Parhau i ystyried anghenion pobl a chymunedau sy'n wynebu anfantais wrth ddatblygu trefniadau cydweithio a gwasanaethau yn y dyfodol.

**c) Meithrin perthnasau da rhwng grwpiau gwahanol**

· Datblygu trefniadau ymgysylltu sy'n annog rhannu profiadau, gwybodaeth ac arfer da rhwng gwahanol rannau o'r Trydydd Sector a'r Cyngor. ·

Parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd er mwyn sicrhau bod ystod eang o leisiau a safbwyntiau cymunedol yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau a gwaith partneriaeth.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Gan fod llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl a chymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, gellid cryfhau gweithrediad y Compact ymhellach drwy sicrhau bod y trefniadau ymgysylltu a chydweithio yn cynnwys lleisiau'r grwpiau a'r cymunedau hynny. Gellid hefyd annog rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth yn rheolaidd am yr heriau sy'n wynebu pobl sydd mewn tlodi neu dan anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn llywio blaenoriaethau gwaith ar y cyd yn y dyfodol.

Bydd y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector hefyd yn darparu cyfle i drafod materion sy'n effeithio ar gymunedau difreintiedig a nodi cyfleoedd i'r Cyngor a'r Trydydd Sector gydweithio i ymateb i'r heriau hynny.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Gellid cryfhau gweithrediad y Compact ymhellach drwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn rheolaidd o fewn trefniadau ymgysylltu a chydweithio'r Cyngor a'r Trydydd Sector. Gellid hefyd annog rhannu arferion da a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad sylweddol y mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn ei wneud i ddarparu gwasanaethau, gweithgareddau a chefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Dim | Dim | Dim | Dim | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| Monitro: Grŵp Cyswllt Trydydd Sector | Parhaol | Bydd gweithrediad y Compact yn cael ei fonitro drwy drefniadau ymgysylltu gyda Mantell Gwynedd a'r Trydydd Sector. | Na |
| Monitro: Pwyllgor Craffu | Bob dwy Flynedd | Croesewir hefyd adolygiad gan y Pwyllgor Craffu Gofal ymhen dwy flynedd er mwyn asesu ei effeithiolrwydd a nodi unrhyw welliannau pellach. | Na |